# Cyngor Cymuned Tudweiliog

## Tudweiliog Community Council

Heulwen Williams
Clerc/clerk
01758 770415

Pen Cefn,
Dinas,
Pwllheli.
LL53 8UB.

### Cofnodion Cyngor Cymuned Tudweiliog 14eg Tachwedd 2022

Presennol: Gareth Jones, Alyn Williams, Terry Huws, Henry Huws, Chris Brady, Catrin Williams, John Davies, Sioned Pearson, Sian Parri, Dafydd Richard Williams.
Ymddiheuriadau: Alan Hughes

1. Cadeiriwyd gan Gareth Jones ac estynnodd groeso i bawb, yn arbennig i'r Cynghorydd newydd – Dafydd Richard Williams.
2. Croesawyd Catrin Huws a Steffan Smith, bu iddynt egluro mwy am y cynllun Peilot Ardal Dwyfor Galluogi Tai cymunedol, cafwyd sgwrs buddiol ar y diwedd. Addawodd Catrin y byddai'n anfon adroddiad or hyn a drafodwyd ynghyd a mwy o wybodaeth at y Cyngor Cymuned yn fuan.

3. Derbynwyd y cofnodion diwethaf fel rhai cywir.

4. Materion yn codi o'r cofnodion:
    a. **Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy** – Derbyniodd y Clerc gadarnhad gan Carter Jonas nad oedd gwrthwynebiad ynglyn a gosod hysbysfwrdd ar wal y post ond y byddai angen cysylltu a'r adran Gynllunio i gwyro os oes angen hawl cynllunio – mae'r Clarc wedi cysylltu ar adran ond heb dderbyn ymateb.
    b. **Gor yrry ar lon ysgol Tudweiliog –** Bu i Swyddog o'r adran Ffyrdd ymweld a'r safle a gwelodd drosto ei hun y broblem. Bydd y Swyddog yn cysylltu yn ol hefo Chris Brady ynglyn a pha gamau pellach fydd yn digwydd i geisio arafu'r traffig.
    c. **Tir Garnfadryn –** Derbyniodd y Clerc ymateb gan Swyddog o Gyngor Gwynedd yn ein gwybyddu na all y Cyngor fod o gymorth yn yr achos yma ac mai y ffordd ymlaen yw cofrestru'r tir hefo'r 'Land Registry' ac yna cyfarwyddo cyfreithwyr ein hunnain er

mwyn derbyn cyngor. Cyn symud ymlaen penderfynwyd mai da o beth fyddai i'r Clarc ymweld a'r safle a ceisio cael gair hefo'r sawl oedd yn arfer ei rentu ac egluro iddi ein bwriad.

ch. **Cyfethol – 1 sedd wag –** Dywedodd Henry Huws fod ganddo berson mewn golwg – bydd yn cadarnhau mis nesaf.

d. **Mynwent Newydd Tudweiliog** – Eglurodd Chris Brady iddo gael gair hefo Swyddog o Stad Cefnamwlch ynglyn a pha gaeau eraill a allai fod ar gael pe byddai y darn dan sylw ddim yn pasio'r profion sy'n angenrheidiol. Dyweodd Chris fod y Swyddog wedi gofyn i'r Cyngor Cymuned awgrymu tri safle y bydden nhw'n gredu fyddai'n addas – nodwyd tri cae, bydd Chris Brady yn pasio'r neges i'r Stad.

dd. **Lloches bws Tudweiliog –** Eglurodd Gareth Jones y Cadeirydd ei fod wedi prynu paent ac y bydd yn ceisio gweithio ar y lloches bws yn y mis nesaf.

e. **Diffib Tudweiliog –** Derbyniodd y Clerc wybodaeth o gostau Diffib newydd, ac hefyd cafodd wybod fod grant ar gael i dderbyn Diffib am ddim drwy 'Save a Life Cymru' NHS Cymru. Anfonodd y Clerc gais.

f. **Archwyliad Allanol Audit Wales –** Hyd yma does dim ymateb wedi ei dderbyn ynglyn a'r Archwyliad.

ff. **Tro Refail Garn Garnfadryn –** Anfonodd y Clerc neges at yr Adran Ffyrdd yn nodi fod digwyddiad wedi digwydd pan fethodd lori a throi yn y tro – cafodd ymateb yn gofyn am fap yn nodi'r safle – anfonodd y Clerc lun yn ol atynt yn syth.

gg. **Tyfiant ar waly r ysgol –** Cafwyd ymateb gan Benaeth yr ysgol yn gofyn am fwy o fanyldre ynglyn a pha ddarn o'r wal y mae'r pryder. Atebodd y Clerc mai y darn sy'n cychwyn wrth y giat fach ac yna i lawr am yr iard.

Ng. **Coeden yn tyfu i'r lon –** Derbynwyd ymateb gan yr Adran Priffyrdd yn datgan fod perchenog y cae wedi ei wybyddu ac Y bydd yn torri'r brigau sy'n tyfu I'r lon.

5. Gohebiaeth:

a. **Dwr ar Lon Beudu Bigyn –** Derbyniodd y Clerc gwyn fod dwr yn parhau I groni ar ddarnau o'r ffordd, derbyniodd lun oedd yn dangos pa mor ddrwg oedd y llifogydd. Pasiodd y Clerc y gwyn a'r llun ar yr adran Priffyrdd.

b. **Cais Cynllunio C22/1014/46/LL Ty'n Simdde Llaniestyn -** Cefnogi

c. **Cais Cynllunio C22/1026/46/LL Fferm Myfyr, Dinas –** Cefnogi

**Ch. Cais Cynllunio C/22/1037/46/LL Nant, Dinas-**
Cefnogi

6. **Unrhyw fater arall-**

**a.** Mae angen hysbysfwrdd newydd ym mhentref Garnfadryn,mae cyflwr yr un presennol yn ddrwg iawn. Cytunwyd I'r Cyngor Cymuned roi cais am ddau.

**b.** Mae tyfiant mawr ar y cloddiau ar lon Tan Fron Garnfadryn bydd y Clerc yn gofyn i'r adran Priffyrdd farbio'r cloddiau.

**c.** Derbynwyd cwyn fod y cyflwr y ffordd i lawr am Porth Colmon yn ddrwg iawn – bydd y Clerc yn gwybyddu'r adran Priffyrdd.

**Ch.** Unwaith eto cyflwynwyd pryder am gyflymdra trafnidiaeth cyn Cyrraedd yr arwydd 30 milltir yr awr pan yn teithio I fewn I bentref Tudweiliog o ochr Edern – oherwydd nad I'w bosib symud yr arwydd 30, awgrymwyd y byddai'n fuddiol cael arwydd 40 milltir yr awr wedi ei osod latheni ynghynt – cyn cyrraedd tro am Towyn. Bydd y Clerc anfon at yr adran traffig i awgrymu hyn.

Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Lun 12fed Tachwedd 2022 am 7.30yh